

5. DYDD IAU – DYDD Y RHOI

Darllen: Marc 14: 12-16

Dydd Iau oedd dydd y ‘Swper Olaf’, dydd Gethsemane, dydd prawf Iesu o flaen y Sanhedrin. Yn ei esboniad ar Efengyl Ioan, gofynna’r diwinydd mawr o’r Almaen, Gengel, *‘Trwy ba hawl y gwnaf hyn?’* Trwy ba hawl...? Beth a wnawn yma? Ond nid trwy hawl y deugn, ond trwy ras yn unig. Deugn i’r fan lle llefarodd Crist, a gweithredu, a dioddef. A thrwy’r cyfan, cawn ei weld fel y mae. Dyma’r Arglwydd! Yma yr amlygir ein ffaeleddau a’n annheilyngdod yn fwy hyd yn oed nag arfer. Tir sanctaidd yw hwn. Cawn ddod yma yn unig drwy wahoddiad i edrych a gwrando. Efe, yr Arglwydd, sydd yn y canol ac nid ninnau. Dyma eglurhad Paul yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid (5: 8): *‘...prawf Duw o’r cariad sydd ganddo tuag atom yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.’*

Gwnaethpwyd y trefniadau ar gyfer y swper yn drwyadl o flaen llaw. Rhaid cadw’r cyfan yn gyfrinach hyd nes i’r amser priodol gyrraedd. Fel ar Sul y Blodau a’r asyn, y mae yma baratoi manwl ar gyfer cadw’r Pasg, ac unwaith eto, mae yna gyfrinair. Danfonodd ddau o’r disgyblion i osod y bwrdd a pharatoi’r wledd. Rhaid iddynt chwilio am *“ddyn yn cario stenaidd o ddur.”* Ond, onid gwaith merched oedd cario dŵr?! Pwy oedd y dyn hwn felly? Darganfuwyd yn ystod y degawdau diweddar fod un dosbarth o ddynion yn cario dŵr ymhlith yr Iddewon, sef aelodau o sect yr Esseniaid, a bod ganddynt gymuned yn byw ar Fynydd Seion yn Jerwsalem, lleoliad traddodiadol y Swper Olaf. Aeth y dyn â hwy i oruwch-ystafell i wneud y paratodau.

Anghytuna Ioan â’r Efengylwyr Synoptaidd ar ddyddiad y pryd hwn. Noswyl y Pasg, medd y Synoptiaid, sef nos Wener. Nos Iau yw dewis Ioan, oherwydd tra bod yr uyn pasgedig yn cael eu lladd yn y Deml a’u gwaed yn pistyllu i lawr y cwteri, fe groeshoeliwyd Iesu ar Galfaria. Dengys ymchwil ar Sgroliau’r Môr Marw i’r Esseniaid gefnu ar galendr y Deml am fod ei chrefydd yn llygredig, gan gadw’r Pasg ar nos Fawrth o’r wythnos honno. Tybed a wnaeth Iesu a’r Deuddeg gadw eu Pasg hwythau ar yr un noson a’u lletywyr? Byddai hynny’n caniatáu mwy o amser i garchariad ac ymddangosiadau Iesu gerbron y llysoedd gwahanol. Pwy a uyr? Hoffaf y syniad ond nid oes un sicrwydd am hyn, ond os oes rhaid dewis rhwng y dyddiadau a geir yn yr efengylau,

derbyniaf awgrym Ioan i Iesu gadw'r Pasg ddiwrnod cyn y pryd, am fod amgylchiadau yn ei orfodi i wneud hynny.

Paratowyd y wledd gyda'i holl fwydwyd symbolaidd, sy'n atgoffa'r Hebreaid am y Pasg cyntaf a'u gwaredigaeth o alltudiaeth a chaethiwed yr Aifft - *karpas* (persli, letysen, seleri, wedi eu gwlychu mewn dŵr hallt), symbol o halen y Môr Coch; *bara* croyw, symbol o frys yr Exodus; dŵr hallt, symbol o ddagrau caethiwed; *maror* (llysiau chwerw), symbol o chwerwder caethiwed; *charoset* (afalau, cnau, sinamon a gwin), symbol o'r clai (*cymrwd*) yr oedd yn rhaid i'w tadau chwilio amdano, a hefyd o felystra mewn gofid; wy wedi ei ferwi mewn dŵr hallt, symbol o gylch bywyd a galar ac ar ôl 70 O.C., o ddinistr y Deml; ac, wrth gwrs, yr oen pasgedig, a'r siancen yn eu hatgoffa o weithred Duw: "*Daeth â ni allan o'r Aifft â llaw cadarn a braich estynedig*" (Deut. 26: 8).

Pedwar cwpan o win i bob person a phob un yn cynrychioli addewid arbennig: (1) Myfi a'ch arweiniaf chwi allan; (2) Myfi a'ch gwaredaf; (3) Myfi a'ch prynaf; (4) Myfi a wnaaf chwi yn bobl yn eiddo i mi. Yn ddiweddarach, ychwanegwyd y pumed cwpan, 'Cwpan Elias', a rhaid iddo ddod o flaen y Meseia. Yn yr Haggadah, llyfr gwasanaeth y Pasg Iddewig, gwaith y tad, wrth iddo godi'r bara er mwyn i bawb ei weld yw dweud: "*Bara'r cystudd yw hwn, a fwytaodd ein tadau yng ngwlad yr Aifft. Pawb sy'n newynog – gad iddynt ddod a bwyta. Pawb sydd mewn angen – gad iddynt ddod a dathlu'r Pasg gyda ni. Yma yr ydym yn awr; y flwyddyn nesaf a byddwn yng ngwlad Israel. Caethweision ydym yn awr; y flwyddyn nesaf a byddwn ni yn ddynion rhydd.*" Pwrpas yr holl gofio oedd edrych ymlaen at Dduw yn cyflawni ei holl addewidion - wrth gadw'r Pasg i Iddewon a chadw Swper yr Arglwydd i Gristnogion.

Gweddi:

Rhannodd ei fwrdd gydag un a'i bradychodd, un a'i gwadodd, a'r rhai a gefnodd arno.

Rhannodd ei groes gyda dau leidr.

Rhoddodd ei faddeuant i'r rhai a'i hoeliodd yno.

Ef yw ein Harglwydd.

Ynddo ef yr ymddiriedwn am faddeuant. Amen.